# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1595(ECT) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 4 Hydref 2010

**At Alun Davies:**

Ar 22 Medi, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r rhaglen ar gyfer cynllun A40 Llanddewi Felffre i Benblewin.

Mae fy swyddogion wrthi'n paratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol fel y gallwn wahodd cynigion ar gyfer Asiant y Cyflogwyr a phenodi contractwr er mwyn rhoi'r cynllun ar waith. Bydd hyn yn ein galluogi i ddechrau ar y gwaith ymchwilio cychwynnol ac i baratoi'r dyluniadau fel y gall y Gorchmynion Drafft gael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2013. Cyn belled a bod canlyniad y broses statudol yn foddhaol ac y gellir sicrhau bod y cyllid angenrheidiol ar gael, gallai'r gwaith adeiladu ddechrau yn gynnar yn 2014.